

Trwydded Hysbysfyrddau – Adran 172 / 173 Deddf Priffyrdd 1980

Telerau ac Amodau

Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau:

1. Bod yr holl Hysbysfyrddau'n cael eu codi gan bersonél hyfforddedig a chymwys.
2. Bod digon o olau a gardiau'n cael eu darparu a'u cynnal yn unol â'r **Llawlyfr Arwyddion Traffig: Pennod 8 a Diogelwch Gwaith Ffordd a Stryd (Llyfr Coch)** tra bydd y drwydded ar waith.
3. Bod Hysbysfyrddau'n cael eu goleuo trwy'r adeg o hanner awr cyn y machlud tan hanner awr ar ôl codiad yr haul oni bai y cytunir fel arall gyda'r Arolygydd Priffyrdd.
4. Bod Hysbysfyrddau'n cael eu clirio o'r Briffordd erbyn dyddiad dod i ben y drwydded.
5. Bod unrhyw hysbysiadau a graffiti anghyfreithlon yn cael eu symud o'r Hysbysfyrddau cyn gynted ag y cânt eu nodi.
6. Bod y strwythur yn cael ei wynnu (lefel daear i leiafswm o 2.3 metr) ac yn cael ei godi o fewn 400mm o ymyl y cwrbyn (gan alluogi cerbydau i orhongian). Os nad oes modd cynnal hyn, rhaid cysylltu â Chyngor Caerdydd cyn dechrau'r gwaith. Gellir cymeradwyo lliwiau corfforaethol ond gellir eu defnyddio ond gyda chytundeb Cyngor Caerdydd.
7. Bod Hysbysfyrddau yng Nghanol Dinas Caerdydd, ardaloedd siopa a llwybrau sy'n sensitif o ran traffig yn cael eu codi a'u datgysylltu ar ddydd Sul (oni bai y cytunir fel arall gyda Chyngor Caerdydd).
8. Bod troedffordd â lled 1.5m o leiaf yn cael ei chynnal mewn ardaloedd cerddwyr prysur, gallai 1.2 metr fod yn dderbyniol mewn ardaloedd llai prysur. Mae angen y lled hwn i alluogi defnyddwyr cadeiriau olwyn neu'r rhai sydd â chŵn tywys basio'n ddiogel. Cedwir lled lleiaf y droedffordd a gytunwyd arno ar gyfer defnydd y cyhoedd, rhaid gwarchod hwn trwy'r amser ac ni ddylid ei rwystro. Cyn codi, rhaid i'r ymgeisydd gadarnhau gyda Chyngor Caerdydd y pellter lleiaf angenrheidiol ar gyfer clirio'r droedffordd. Os nad oes modd cynnal y droedffordd, rhaid darparu llwybr arall.
9. Rhaid darparu llwybr digonol fel na fydd yn rhaid i'r cyhoedd fynd i mewn i'r ardal gwaith pan fo'r Hysbysfyrddau'n cael eu codi a'u datgysylltu, gydag arwyddion a gardiau digonol a llwybrau gwyr.
10. Bod rhif cyswllt argyfwng/allan o oriau'n cael ei atodi i'r holl Hysbysfyrddau.

Cosb am beidio â chydymffurfio

O ran difrod i'r priffyrdd, bydd Cyngor Caerdydd yn casglu tâl am yr holl gostau ar gyfer gwaith atgyweirio gan Ddeiliad y Drwydded.

- Os methwch gydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol byddwch yn atebol i gamau gorfodi sy'n cynnwys Hysbysiad Cosb Benodedig **Rhan IX Deddf Priffyrdd 1980 am rwystro priffordd**
 - Adran 137 (Cosb am rwystr bwriadol) Cosb Sefydlog o £100
 - Adran 137ZA Pŵer i orchymyn i'r troseddwr symud y rhwystr
 - Adran 172 Hysbysfyrddau i gael eu codi tra bo gwaith adeiladu ar y gweill ac ati. (Troseddu dan yr adran hon) Cosb Sefydlog o £100
 - Adran 173 Hysbysfyrddau i gael eu codi'n ddiogel. (Pŵer i symud ac adennill costau)
 - Adran 149 Symud pethau wedi'u gadael ar Briffyrdd sy'n niwsans ac ati. (Pŵer i symud ac adennill costau)

Indemniad Cyfreithiol

Bydd Deiliad y Drwydded yn indemnio Cyngor Caerdydd a/neu ei weision a'i asiantau a'u hindemnio'n barhaol yn erbyn unrhyw atebolrwydd, rhag pob hawliad, galw, gweithred, cost a difrod sy'n codi o ganlyniad i godi sgaffald ar y lôn gerbydau, troedffordd neu lain laswellt. Mae cyfnod yr indemniad i fod yn ddilys o ddyddiad codi'r sgaffald i'r dyddiad y caiff ei symud. £5,000,000 yw'r swm a'i cwmpasir gan y polisi ar gyfer unrhyw un digwyddiad gydag yswirir dibynadwy. Yn ôl yr angen, bydd Deiliad y Drwydded yn rhoi'r polisi neu bolisiau yswiriant i'r Awdurdod ynghyd â derbynebaw ar gyfer talu am y polisi cyfredol.

Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i llenwi ac unrhyw ddogfennaeth / cynlluniau angenrheidiol i:

Cyngor Caerdydd – Gwasanaethau Cymdogaeth, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, CAERDYDD CF10 4UW neu GwasanaethauCymdogaeth-CymorthCusnes@caerdydd.gov.uk